# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 8 Ionawr 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(103)

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 3, 5 i 6 ac 8 i 15. Tynnwyd cwestiynau 4 a 7 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

**Cwestiwn Brys**

Dechreuodd yr eitem am 14.28

Byron Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wladoli Maes Awyr Caerdydd.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.36

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac Ymgysylltiad â Phobl Ifanc - Gohiriwyd

### 4. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar Cymwysterau Cymru

Dechreuodd yr eitem am 14.53

### 5. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd ar yr Ymgynghoriad ar Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol ar gyfer 2014 - 2020

Dechreuodd yr eitem am 15.24

**6. Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ar ailddechrau defnyddio eiddo gwag: cynllun Troi Tai'n Gartrefi**

Dechreuodd yr eitem am 16.01

**7. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus - cymalau sy'n ymwneud â'r cyfyngiadau sydd i'w cymhwyso i gynlluniau newydd - Gohiriwyd**

**8. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Atal Twyll Tai Cymdeithasol**

Dechreuodd yr eitem am 16.42

**NDM5082 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Atal Twyll Tai Cymdeithasol i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Hydref 2012 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**9. Dadl ar y Setliad Llywodraeth Leol**

Dechreuodd yr eitem am 16.53

**NDM5127 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2013-2014 (Setliad Terfynol - Cynghorau) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Ionawr 2013.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 5 | 11 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 17.41

**10. Dadl Fer - gohiriwyd o 21 Tachwedd 2012**

Dechreuodd yr eitem am 17.43

**NDM5100 Andrew RT Davies (Canol De Cymru):**

A yw Cynlluniau Datblygu Lleol yn addas i’r diben?

Mae angen diwygio'r system yn ei hanfod os yw am sicrhau canllawiau tymor hir effeithiol ar gyfer cynllunio a datblygu yng Nghymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:06

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 9 Ionawr 2013**